









Beth i'w wneud os...	Gweithredu angenrheidiol	Yn ôl i'r ysgol...
 <p>...mae gan fy mhlentyn symptomau COVID-19 (coronafeirws)*</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai'r plentyn fynd i'r ysgol Dylai'r plentyn gael prawf Yr aelwyd gyfan yn hunanynysu tra'n aros am ganlyniad y prawf Rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith am ganlyniadau'r prawf 	<p>...pan ddaw prawf y plentyn yn ôl yn negatiff a'r plentyn yn ddigon da i ddychwelyd. Os nad oes canlyniadau prawf ar gael, dylai'r plentyn gwblhau 10 diwrnod o ynysu</p>
 <p>...mae fy mhlentyn yn profi'n bositif am COVID-19 (coronafeirws)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai'r plentyn fynd i'r ysgol Mae'r plentyn yn hunanynysu am o leiaf 10 diwrnod ar ôl i symptomau* ddechrau (neu o ddiwrnod y prawf os nad oes symptomau) Rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith am ganlyniadau'r prawf Yr aelwyd gyfan yn hunanynysu am 14 diwrnod o'r diwrnod pan ddechreuodd symptomau* (neu o ddiwrnod y prawf os nad oes symptomau) - <i>hyd yn oed os bydd rhywun yn profi'n negatiff yn ystod y 14 diwrnod hynny</i> 	<p>...pan fydd y plentyn yn teimlo'n well, ac wedi bod heb wres am 48 awr o leiaf</p> <p>Gallant ddychwelyd i'r ysgol ar ôl 10 diwrnod hyd yn oed os oes ganddynt beswch neu os ydynt wedi colli arogl / blas. Gall y symptomau hyn bara am nifer o wythnosau ar ôl i'r haint ddiplannu.</p>
 <p>...mae gan rywun ar fy aelwyd symptomau COVID-19 (coronafeirws)*</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai'r plentyn fynd i'r ysgol Dylai'r aelod o'r aelwyd sydd â symptomau gael prawf Y cartref cyfan yn hunanynysu tra'n aros am ganlyniad y prawf Rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith am ganlyniadau'r prawf 	<p>...pan fydd prawf yr aelod o'r aelwyd yn negatiff, ac nad oes gan y plentyn symptomau COVID-19*</p>
 <p>...mae rhywun ar fy aelwyd wedi profi'n bositif am COVID-19 (coronafeirws)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai'r plentyn fynd i'r ysgol Yr aelwyd gyfan yn hunanynysu am 14 diwrnod o'r diwrnod pan ddechreuodd symptomau* (neu o ddiwrnod y prawf os nad oes symptomau) - <i>hyd yn oed os bydd rhywun yn profi'n negatiff yn ystod y 14 diwrnod hynny</i> 	<p>...pan fydd y plentyn wedi cwblhau 14 diwrnod o hunanynysu, hyd yn oed os bydd yn profi'n negatiff yn ystod y 14 diwrnod</p>

* Mae symptomau'n cynnwys o leiaf un o'r canlynol: tymheredd uchel; peswch parhaus newydd; colli neu newid yn eich synnwyr o flas neu arogl. Rhagor o wybodaeth ar gael yn:

 <p>...mae Profi ac Orlhain y GIG wedi nodi fy mhlentyn fel 'cyswllt agos' i rywun sydd â symptomau* neu sydd â COVID-19 (coronafeirws) wedi'i gadarnhau</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai'r plentyn fynd i'r ysgol Mae'r plentyn yn hunanynysu am 14 diwrnod (yn unol â chyngor Prawf ac Orlhain y GIG) – hyd yn oed os yw'n profi'n negatiff yn ystod y 14 diwrnod hynny Dim angen i weddill yr aelwyd hunanynysu, oni bai eu bod hwy'n 'gyswllt agos' hefyd 	<p>...pan fydd y plentyn wedi cwblhau 14 diwrnod o hunanynysu, hyd yn oed os bydd yn profi'n negatiff yn ystod y 14 diwrnod</p>
 <p>...rydym ni / fy mhlentyn wedi teithio ac mae'n rhaid hunanynysu fel rhan o gyfnod cwarantîn</p>	<ul style="list-style-type: none"> Peidiwch â chymryd gwyliau heb awdurdod yn ystod y tymor Ystyriwch ofynion cwarantîn a chyngor y Swyddfa Dramor a Chymanwlad wrth archebu teithio Rhowch wybodaeth i'r ysgol yn unol â'r polisi presenoldeb <p>Dychwelyd o gyrchfan lle mae angen cwarantîn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai'r plentyn fynd i'r ysgol Yr aelwyd gyfan yn hunanynysu am 14 diwrnod – hyd yn oed os byddant yn profi'n negatiff yn ystod y 14 diwrnod hynny 	<p>...pan fydd y cyfnod cwarantîn o 14 diwrnod wedi'i gwblhau ar gyfer y plentyn, hyd yn oed os bydd yn profi'n negatiff yn ystod y 14 diwrnod hynny</p>
 <p>...rydym wedi derbyn cyngor o ffynhonnell feddygol/ swyddogol fod yn rhaid i'm plentyn aildddechrau gwarchod</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai'r plentyn fynd i'r ysgol Cysylltu â'r ysgol yn ôl cyngor y swyddog presenoldeb / tîm bugeiliol Dylai'r plentyn warchod nes i chi gael gwybod bod y cyfyngiadau'n cael eu codi a bod y mesurau gwarchod yn dod i ben dros dro eto 	<p>...pan fydd yr ysgol / asiantaethau eraill yn rhoi gwybod i chi fod cyfyngiadau wedi'u codi a bod eich plentyn yn gallu dychwelyd i'r ysgol eto</p>
 <p>....dydw i ddim yn siŵr pwy ddylai gael prawf am COVID -19 (coronafeirws)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dim ond pobl â symptomau* sydd angen cael prawf Nid yw pobl heb symptomau'n cael eu cynghori i gael prawf, hyd yn oed os ydynt yn 'gyswllt agos' rhywun sy'n profi'n positif 	<p>...pan fydd yr amodau uchod, sy'n cyfateb i'ch sefyllfa chi, yn cael eu bodloni</p>

I gael rhagor o wybodaeth:

<https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/>